COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 18 MEDI 2025 AM 10.00

Presennol

G Chapman – Cadeirydd (Aelod lleyg)

| | | |
|---|---|---|
| M L Hughes | RM Granville | O Clatworthy |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | S Easterbrook | B Olorunnisola | A Bagley |
| MJ Williams | S J Griffiths | RL Penhale-Thomas | |

Presennol yn Rhithwir (Aelodau lleyg)

| | |
|---|---|
| A Bagley | B Olorunnisola |

Presennol (Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet)

| | |
|---|---|
| J Spanswick | P Davies |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Datganiadau o Fuddiannau

G Chapman – Eitem 3 – Personol – Arolygwr Lleyg, ESTYN.

S Easterbrook – Eitem 3 – Personol – Aelod Ward, Canol Pen-y-bont ar Ogwr.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Lucy Herman | Archwilio Cymru |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Y Gwasanaethau Democrataidd |

**247. Adroddiad Diweddaru yn Ymwneud â Gweithgaredd Archwilio Mewnol yn Ysgol Maesteg ac Ysgol Gynradd Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch argymhellion Archwilio Mewnol diweddar yn dilyn ymweliadau ag ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, a'r camau a gymerwyd wedyn gan yr ysgolion hynny, yn ystod blwyddyn ysgol 2024-2025.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r aelodau'n trafod y canlynol:<br><br>• Y cynnydd sydd wedi cael ei wneud, bod hyn yn cynrychioli canlyniad cadarnhaol, a'i fod yn tystio i werth y broses archwilio fewnol: Roedd penaethiaid yr ysgolion yn y ddwy ysgol dan sylw yn croesawu canfyddiadau'r archwiliad ac ail ymweliad archwilio mewnol yn y dyfodol. Dangosai hyn fod y ddwy ysgol wedi gwneud gwaith da iawn y dylid ei gydnabod. Adleisiodd aelodau eraill y sylwadau hyn.<br>• O ran Ysgol Maesteg, byddai'n ddefnyddiol cael gweld canllaw y weithdrefn ariannol.<br>• Er bod y broses archwilio fewnol wedi gweithio'n dda, roedd cwestiynau'n parhau ynghylch pam nad oedd penaethiaid yr ysgolion hyn yn gwybod beth yr oeddent i fod i'w wneud yn y lle cyntaf. Awgrymai hyn yr angen am hyfforddiant, yn enwedig o ran cyfrifoldebau penaethiaid, rheoli risg a |

| | |
|---|---|
| | rheolaethau ariannol. Mewn ymateb i hyn, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc fod digwyddiad hyfforddi wedi cael ei gynnal ers yr adroddiad cychwynnol ar gyfer uwch arweinwyr a bod Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi bod yn bresennol.<br>• Roedd marc cwestiwn yn parhau ynghylch yr achosion sylfaenol ac a oedd y sicrwydd angenrheidiol wedi cael ei roi nad yw'r problemau hyn yn digwydd mewn ysgolion eraill. Mewn ymateb, tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc sylw at rôl yr awdurdod lleol wrth sicrhau bod arferion effeithiol, o bob ffynhonnell, yn cael eu lledaenu a'u gweithredu. Mae Tîm Pen-y-bont ar Ogwr yn arbennig o bwysig ar gyfer hyn gan ei fod yn dod â'r holl benaethiaid ynghyd â swyddogion amrywiol, mewnol ac allanol, i rannu arfer gorau ac wedyn sicrhau ei fod wedi cael ei fabwysiadu.<br>• Y rheolaethau ariannol ar ddefnyddio cardiau prynu.<br>• Ble mae'r cyfrifoldeb i sicrhau bod gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cynnal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ei fod yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu rhwng yr ysgolion, sy'n gyfrifol am staffio, a'r awdurdod lleol sy'n cyflogi, ac felly'n sicrhau bod staff yn cael eu cyflogi a'u gwirio'n briodol. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn cyd-fynd â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru o ran cwrdd â'r disgwyliad cyfreithiol ar gyfer gwiriadau DBS.<br>• Pwysigrwydd hyfforddiant diogelu. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, o safbwynt yr awdurdod lleol, er na ellir ei orfodi, fod disgwyl i gynifer o bobl â phosibl yn yr ysgolion gael eu hyfforddi, a bod yr hyn a wneir ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn eithaf arloesol, gan fod archwiliadau a rennir yn digwydd gydag ysgolion bob blwyddyn o ran gweithdrefnau diogelu.<br>• Pwysigrwydd cael gweithdrefnau clir, wedi eu diweddaru wrth i ganllawiau newydd ddod i law, a diffiniad o ran defnyddio arian preifat mewn ysgolion.<br>• P'un a yw canfyddiadau archwiliad unrhyw ysgol benodol ar gael neu'n hawdd eu cyrchu gan benaethiaid eraill neu'r rhai sy'n gyfrifol am gyllid mewn ysgolion eraill. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc nad yw ysgolion yn cael eu gwneud yn esiampl ond lle bydd problemau'n codi, eu bod yn cael eu rhannu ag ysgolion. Yn ei brofiad ef, cafodd hyn groeso da gan benaethiaid.<br>• Defnydd a rôl hysbysiadau statudol wrth sicrhau rheolaeth effeithiol mewn ysgolion.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a gofynnodd am i'r system ar gyfer gwiriadau DBS mewn |

| | |
|---|---|
| | ysgolion gael ei chyfeirio i'w hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18/09/25 |

**248. Datganiad Sefyllfa ar Argymhellion Archwilio Mewnol ar gyfer Gorfodi Parcio, Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith ar gyfer Cerbydau'r Cyngor a Harbwr Porthcawl.**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed, y rhai a weithredwyd, a’r rhai sydd heb eu gweithredu mewn perthynas â Gorfodi Parcio, Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith ar gyfer Cerbydau'r Cyngor a Harbwr Porthcawl.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr aelodau y materion canlynol a buont yn eu trafod:<br><br>• O ran **Gorfodi Parcio**, p’un a oedd y capasiti i weithredu'r argymhellion cyn gynted â phosibl. Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fod gorfodi parcio yn digwydd yn ôl yr arfer. Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â sefydlu strategaeth neu bolisi cyffredinol i amlinellu dyletswyddau, pwerau ac amcanion allweddol y Tîm Gorfodi Parcio, ac roedd hwn i fod i fynd gerbron y Cabinet ym mis Hydref.<br><br>• O ran **Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith**:<br><br>▪ Faint o gerbydau oedd y Cyngor yn eu defnyddio ac a oedd dull o olrhain ar waith i fonitro eu defnydd. Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fod mwy na thri chant ar draws yr holl gyfarwyddiaethau. Roedd cyfrwng olrhain i’w gael ar beiriannau cynnal a chadw gweithredol, ond y rheswm am hynny oedd optimeiddio llwybrau. Nid oedd yn ymwneud ag olrhain ble roedd pobl yn mynd â hwy, er ei bod yn hysbys ble roedd y cerbydau. Mae popeth yn cael ei fonitro yn y depo cynnal a chadw fflyd ar y cyd yng Nghyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd Tŷ Thomas, y mae'r Cyngor yn ei rannu â Heddlu De Cymru.<br>▪ A oedd un mis ar ddeg yn gyfnod rhesymol o amser i gynnal adolygiad y fflyd. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau y gellid ei gyflawni'n gynt ond bod yna ffactorau oedd yn achosi cymhlethdod, gan gynnwys y ffaith fod rheoli gwastraff yn cael ei dynnu i |

| | |
|---|---|
| | mewn, ac a fyddai'r trefniadau cytundebol ar gyfer cynnal a chadw fflyd gyda Heddlu De Cymru yn aros yn eu lle o ystyried nad yw'r depo yn ddigon mawr ar hyn o bryd i gynnal cerbydau gwastraff.<br><br>O ran **Harbwr Porthcawl**:<br><br>• Y ddau argymhelliad archwilio mewnol: a) y dylai Bwrdd yr Harbwr dderbyn a chytuno ar y cyfrifon blynyddol yn ffurfiol, a hyn gael ei gofnodi yn y cofnodion; a b) yn unol â Strategaeth Ymgysylltu'r Harbwr, y dylid cyflwyno cynllun busnes i Fwrdd yr Harbwr a'i fonitro'n rheolaidd.<br>• A oedd gan Harbwr Porthcawl y strwythur llywodraethu mwyaf addas ac a ddylai fod mwy o gynrychiolaeth, goruchwyliaeth ac atebolrwydd gwleidyddol. Mewn ymateb, hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau'r Pwyllgor fod y strwythur fel y mae er mwyn gallu gweithredu'n effeithlon. Roedd dwy haen, bwrdd sy'n ofynnol yn ôl statud fel rhan o fod yn awdurdod harbwr ac yna grŵp rhanddeiliaid o'r bobl hynny sy'n chwarae rhan allweddol yn yr harbwr. Yn y ffordd hon, nid oedd yn wahanol i endidau eraill o'r math hwn. .<br>• A ddylai'r cynllun busnes gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn ogystal â chael ei ystyried gan y Cabinet. Dylid rhoi cyfle i gynrychiolwyr etholedig gael lefel briodol o graffu ar y cynllun busnes.<br>• Yr angen am eglurder ynghylch a) y cynllun dirprwyo yn y maes hwn; b) terfynau gwariant; ac c) gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod y cynllun dirprwyo yn y maes hwn yn glir, ond y byddai'n sicrhau ei fod yn cael ei anfon at yr Aelodau. Y prif her oedd sut y câi'r Aelodau eu hysbysu am faterion ynghylch yr harbwr, sy'n fater o adrodd o fewn y Cyngor.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor:<br><br>a) Nodi cynnwys yr adroddiad a ddarparwyd mewn perthynas â'r datganiad sefyllfa ar yr argymhellion archwilio mewnol a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, y rhai a weithredwyd, a'r rhai sydd heb eu cwblhau; a<br>b) Cyfeirio mater Harbwr Porthcawl, a'i strwythur llywodraethu yn neilltuol, i'w ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cymunedau, Amgylchedd a Thai. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18/09/25 |

## 249. Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi diweddariad ar weithgaredd Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn o 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2025.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, fe wnaeth yr Aelodau y canlynol:<br><br>• Diolch i'r tîm am eu gwaith caled.<br>• Nodi ei bod yn amlwg bod rheoli trysorlys y Cyngor yn gweithio'n dda.<br>• Gofyn a gafwyd unrhyw ganllawiau newydd gan Lywodraeth y DU, o ystyried y sefyllfa ehangach ledled y byd, yn enwedig o ran y Dwyrain Canol ac Israel yn benodol, ynghylch sut i sicrhau bod buddsoddiadau'n parhau i fod yn foesegol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd fod adran yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ynghylch yr egwyddor o fuddsoddi sy'n rhoi blaenoriaeth i faterion amgylcheddol, materion cymdeithasol, a llywodraethu corfforaethol (ESG). Roedd swyddogion yn derbyn cyngor gan gynghorwyr rheoli'r trysorlys (gan gynnwys derbyn rhestrau o sefydliadau sy'n cwrdd â safonau ESG). Nodwyd hefyd fod y rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Cyngor gyda'r llywodraeth ganolog a hefyd mewn cronfeydd marchnad arian. Y ffocws oedd sicrhau diogelwch ac enillion.<br>• Ymhellach, ychwanegodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn rhan o'r gyfres o ddogfennau a gyflwynir pan fydd y gyllideb yn cael ei gosod ym mis Chwefror, a bod swyddogion yn edrych i weld beth sydd wedi digwydd yn y farchnad ac a oes angen diweddaru'r strategaeth ai peidio.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor:<br><br>• Nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys am flwyddyn ariannol 2024-25.<br>• Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2025 yn erbyn y rheiny a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18/09/25 |

## 250. Adroddiad Blynyddol ar Dwyll Corfforaethol 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol ar Dwyll Corfforaethol 2024-25 i aelodau'r Pwyllgor. Mae hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â gwrth-dwyll. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac yn cynnwys rhestr wirio hunanasesiad wedi'i chwblhau, y gwnaeth Archwilio Cymru annog pob corff sy'n cymryd rhan i'w chwblhau.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr aelodau y canlynol:<br><br>• Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y digwyddiad hyfforddi a drefnwyd ar gyfer yr Aelodau. Nododd Aelod yn ddiweddarach yn y cyfarfod ei fod yn credu bod y darluniau a ddefnyddiwyd yn glir ac yn rhoi syniad i'r Aelodau am ba mor soffistigedig yw rhai achosion o dwyll a'r her y mae hyn yn ei osod i staff.<br>• A oedd unrhyw gerrig yn cael eu gadael heb eu troi o ran chwilio am dwyll a chamgymeriadau, o ystyried bod y rhan fwyaf o amcangyfrifon yn rhoi'r golled trwy dwyll i awdurdodau lleol rhwng hanner y cant a 5%, fyddai'n awgrymu bod y Cyngor yn tanamcangyfrif faint o dwyll sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod hwn yn faes oedd yn cael ei ystyried yn barhaus a bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn swydd ychwanegol yn delio â budd-daliadau tai i wneud yn siŵr bod y capasiti ar gael i wneud y gwiriadau angenrheidiol ac felly cyfyngu ar y posibilrwydd o dwyll. Nododd hefyd ei fod yn faes y gellid edrych arno eto o safbwynt cyllideb, ar sail 'buddsoddi i arbed', a bod yr Uwch Swyddog Twyll yn cysylltu â swyddogion o awdurdodau lleol eraill i rannu arfer da a dod â syniadau yn ôl a allai fod o fudd i'n dull o wrthweithio twyll.<br>• Mater mewn perthynas â'r disgownt i berson sengl ar gyfer talu’r Dreth Gyngor a'r gofrestr etholiadol. Gofynnodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid a ellid trafod y mater y tu allan i'r cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| | • Nododd aelod lleyg fod 'Ie' ar goll yn rhestr wirio'r Hunanasesiad (atodiad 5) yn 19 a 22.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Dwyll Corfforaethol 2024-25, y camau sydd ar waith i gefnogi gwelliant parhaus, y gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a gwallau a'r diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol gan gynnwys y rhestr wirio hunanasesiad wedi ei chwblhau.<br><br>Diolchodd y Pwyllgor yn ffurfiol i'r tîm am y digwyddiad hyfforddi a ddarparwyd i'r Aelodau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18/09/25 |

## 251. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18/09/25 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:41.